



Y Bont

Cylchgrawn Eglwys Seilo Caernarfon

Tach. 2013
Rhifyn 201

Oedfaon y Sul

- 3 Tach - Bore: **Gweinidog**
Gweinyddir y Cymun a bydd bwrdd Masnach Deg yn y cyntedd
Hwyr (4pm): **Uno yn Salem**
- 10 Tach - Bore a Hwyr: **Y Parchg Iorwerth Jones Owen**
Bydd bocs Bancbwyd yn y cyntedd
- 17 Tach - Bore a Hwyr: **Gweinidog**
Gweinyddir sacrament o fedydd a bydd bocs Bancbwyd yn y cyntedd a derbynir
bocsys Operation Christmas Child
- 24 Tach - Bore a Hwyr: **Y Parchg Dafydd Lloyd Hughes**

Digwyddiadau Mis Tachwedd

Nos Lun 4 Tach (7.30pm) - **Y Gymdeithas Lenyddol**, sgwrs gan Gary Wyn;
'Effaith unigolion rhwng 1775 a 1825 ar ein bywyd heddiw'

Dydd Gwener 8 Tach (10am) - Bore Goffi **Sefydliad y Galon yn yr Institiwt**

Nos Lun 11 Tach (7pm) - **Cymdeithas Chwirydd Seilo**, sgwrs gan
Donald Glyn Pritchard: 'Ysbrydion'.

Dydd Iau 14 Tach (1pm -4.30pm) - **Ffair Nadolig Seilo**

Bore Llun 18 Tach (10am -12pm) - Derbyn bocsys Operation Christmas Child
yng nghyntedd Seilo

Nos Wener 22 Tach (7.30pm) -

Cyngerdd gan Gôr Meibion Caernarfon a Meinir Roberts

Yr elw i Sefydliad y Galon ac Apêl Goleuadau Theatr Seilo (Oedolion £6, Plant £3)

Nos Wener 28 Tach (7pm) yn Theatr Seilo – **Ocsiwn Llawysgrifau**

Yr elw tuag at Ysbyty Shillong.

Ffair Nadolig Seilo

Dydd Iau, 14 Tachwedd (1pm - 4.30pm)
Cacennau, anrhegion, cynyrch cartref a danteithion
Pris mynediad £1. Elw tuag at yr Seilo a Gisda.

Seiat bob dydd Mercher am 10am

Y Gell Weddi bob dydd Iau am 10.30am

Taro Mewn yn Salem bob dydd Mawrth rhwng 10 ac 11am

Am Eiliad

Dyma ni bellach wedi cefnu ar y Diolchgarwch ac yn wynebu'r Nadolig. I lawer dyma wythnosau prysuraf y flwyddyn, ac nid yw eglwys Seilo yn eithriad. Rhwng rwan a'r Dolig bydd y theatr yn llawn bwrlwm gyda'r ysgolion yn ymarfer ar gyfer eu perfformiadau blynyddol a sawl cyngerdd i godi arian at achosion dyngarol. A charwn dynnu'ch sylw at dri digwyddiad fydd yn theatr Seilo yn ystod mis Tachwedd.

Y cyntaf ydi'r **Ffair Nadolig** flynyddol a gynhelir bnawn dydd Iau, 14eg o Dachwedd. Bydd y theatr am bedair awr yn fwrlwm o brynu a gwerthu, yfed te a bwyta mins peis. Erbyn pump o'r gloch bydd y cyfan drosodd, y llwyfan wedi ei glirio, a phawb wedi mynd adra. Yr hyn nad yw llawer yn sylweddoli ydi'r wythnosau a'r misoedd o baratoi a fu ar ei chyfer, a dyna gyfrinach ei llwyddiant. Erbyn hyn mae'r ffair yn denu pobol wrth eu hugeiniau, a hynny oherwydd i'r si fynd ar led ers rhai blynyddoedd bod na Ffair Dolig dda yn Seilo. Ynndi ceir cyfe i brynu anrhegion gwahanol am bris eithriadol o resymol. Ar ben hynny ceir cyfle i gymdeithasu uwchben panad a mins pei. Bargen am £1! Apeliar arnoch i gefnogi'r chworydd sy'n gweithio'n galed er lles yr eglwys.

Yr ail ddigwyddiad ydi'r **Cyngerdd** a gynhelir yn y theatr nos Wener, 22ain o Tachwedd. Yr artistiaid fydd **Côr Meibion Caernarfon a Meinir Roberts**. Un o blant talentog Seilo ydi Meinir sydd wedi graddio eleni ac sy'n paratoi ar gyfer gyrfa fel unawdydd proffesiynol. Hyderaf y caiff gefnogaeth ei ffrindiau yma yn Seilo. Pwyllgor y Theatr sydd yn trefnu'r cyngerdd ac fe rennir yr elw rhwng y theatr a Chymdeithas Sefydliad y Galon. Mae angen adnewyddu goleuadau y theatr, ac fel y gallwch dybio, bydd gwneud hynny'n gostus. Agorwyd y theatr yn 1976 ac yn ystod y pymtheg mlynedd ar hugain ers hynny mae aelodau Seilo wedi elwa'n sylweddol ohoni. Apeliar atoch felly, fel aelodau sydd wedi manteisio ar yr adnodd werthfawr hon yn Seilo, i gefnogi'r cyngerdd. Dewch yn llu i fwynhau orig hyfryd yng nghwmni Côr Caernarfon a Meinir.

Y trydydd digwyddiad? **Ocsiwn Llawysgrifau**. Menter bersonol gen i ydi'r noson hon i godi arian at apêl Ysbyty Shillong. Fe gofiwch i mi ac Elwyn ymweld â Bryniau Casia yn 2010 a chael ein gwefreiddio gan yr hyn a welsom yno. Bu ymweld ag Ysbyty Goffa Gordon Roberts yn Shillong yn brofiad arbennig a barodd i ni deimlo'n hynod o wylaidd a gostyngedig. Ysbyty yw hon, fel dwy arall tebyg iddi yn y Bryniau sydd dan adain yr Eglwys Bresbyteraidd ac sy'n gwasanaethu ardal eang. Dibynna'n helaeth ar ewyllys da cyfeillion a chefnogwyr. Mae'r Gronfa eisoes wedi cyrraedd y swm anrhydeddus o £7,148 a llawer o'r arian wedi ei gasglu trwy eich caredigrwydd chi yma yn Seilo. Gan fy mod wedi derbyn gwahoddiad chworydd yr eglwys yn Shillong i bregethu yn eu Synod ym mis Mawrth y flwyddyn nesaf, bydd cyfle bryd hynny i ni gyflwyno'r siec ar ran yr eglwys i Dr David, Cyfarwyddwr yr ysbyty. Bydd holl elw'r Ocsiwn yn mynd tuag at yr apêl. Sylweddolaf nad yw ocsiwn o'r fath at ddant pawb, ond apeliar eto am eich cefnogaeth mewn unrhyw fodd. Bydd cyfle hefyd ar y noson i werthu creiriau â chysylltiad Cymreig ar y noson. Felly dyma fis sy'n llawn cynnwrf a phrysurdeb. Diolch i chi i gyd am eich haelioni parod bob amser.

Gwenda Richards.

Coffâd

Thomas Vaughan Jones

Hanai Tom Vaughan Jones o Gwmyglo. Bu'n gweithio yn 'Red Garage' yng Nghaernarfon, ac yna ym Manweb. Ymddeolodd yn gynnar oherwydd afiechyd. Fel peirianydd roedd ganddo ddiddordeb mawr mewn ceir ac ymddiddorai mewn ffotograffiaeth. Ei gyfoeth oedd ei deulu, a bu'n briod ffyddlon i Betty, yn dad heb ei ail i Elisabeth ac yn daid hoff i Tesni a Lois.

Y Parchedig Emrys Watcyn Thomas

Mab y Mans oedd Emrys Thomas, a bu dylanwad ei dad yn fawr arno. Bu'n weinidog yn Llanbryn-mair, Llanelli a Phenrhyndeudraeth cyn treulio tair blynedd ar ddeg yng Nghartref

Bontnewydd. Bu ei ddylanwad ef a'i briod, Menna, yn fawr ar ugeiniau o blant a fu dan eu gofal yn y cyfnod hwnnw. Yn 1975 derbyniodd alwad i fod yn weinidog ar eglwys Morfa Nefyn a Phentreuchaf. Yn 1984 ymddeolodd i Gaernarfon gan ymaelodi yn Seilo. Roedd drama ac actio wrth ei fodd, ac yn ei flynyddoedd cynnar bu'n aelod o 'Gwmni'r Genhinen' a fu'n teithio ar draws Cymru yn perfformio dramâu dan gyfarwyddyd Cynan. Parhaodd y diddordeb hwn ar hyd y blynyddoedd, a phan ddaeth i Seilo cymerodd ran flaenllaw ym mhasiantau blynyddol Cymdeithas y Gronyn Gwenith. Bu'n was ffyddlon i'r Arglwydd Iesu Grist gan fugeilo'r praidd yn gydwybodol a phregethu'r Gair gydag arddeliad. 'Mynd yn bregethwr wnes i,' meddai 'nid mynd i'r weinidogaeth'; ac yn sicr cafodd ei bregethu grymus ddylanwad ar gynulleidfaoedd led-led Cymru. Diolchwn am ei gwmni yma yn Seilo, a chofiw'n yn annwyl amdano fel gŵr bonheddig, hynaws a chywir iawn.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â Menna, Iolo a Meleri, Catrin, Angharad, Sara, Nia, Lea, Lois, Ela, Hana a'r teulu oll gan ddymuno Duw yn rhwydd iddynt yn eu hiraeth am briod, tad, taid a hen daid oedd yn meddwl y byd ohonynt, a hwythau ohono yntau.

Cydymdeimlo

Gyda gofid y clywsom bod **Mrs Eifiona Thomas**, Bryn Derw, Llanfaglan, wedi colli ei chwaer yn ddiweddar. Dyma'r ail brofedi-gaeth i ddod i ran Mrs Thomas a'r teulu yn ystod y misoedd diwethaf, a chydymdeimlwn â hi a'r teulu yn eu colled.

Gwaeledd

Anfonwn ein dymuniadau da at bawb a fu'n wael yn ystod y mis. Mae **Mrs Megan Williams**, Awel Menai, Llys Gwyn, wedi symud o Ysbyty Gwynedd i Ysbyty Eryri ac yn gwella'n araf. Treuliodd **Mrs Nerys Williams**, 14 Ffordd Hampton, gyfnod yn Ysbyty Gwynedd fel y gwnaeth **Mrs Beryl Jones**, Tegfan, 41 Rhes Assheton. Da yw deall bod **Mr Noel Hughes**, 17 Llys Gwyn, yntau hefyd wedi dychwelyd adref ar ôl bod yn Ysbyty Gwynedd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i **Mrs Fay Jones**, Graianfryn, 19 Ffordd Eryri, Parc yr Hendre ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

Carai'r Gweinidog gael gwybod am unrhyw aelod sy'n dathlu penblwydd yn 90 oed.

Aelodau Newydd

Yn yr oedfa fore Sul Diolchgarwch, croesawodd y Gweinidog ddau aelod newydd i Seilo. Symudodd **Emlyn** a **Gwyneth Jones** i Fontnewydd o Forfa Nefyn yn gynharach yn y flwyddyn, ac ers hynny bu'r ddau yn addoli'n gyson yn Seilo. Bu Emlyn yn flaenor gweithgar yn eglwys Moreia, Morfa Nefyn, ac yn aelod ffyddlon o Henaduriaeth Llŷn ac Eifionydd. Rydym yn falch o'u croesawu i'n plith a dymunwn fendith iddynt yn eu hardal a'u heglwys newydd.

Blodau'r Cysegr

Dyma'r rhai fydd yn gyfrifol am y blodau yn Seilo yn ystod mis Tachwedd: **Marian Wyn Jones** (3); **Nan Parri** (10); **Helen Jones** (17); **Alice Evans** (24).

Ffair Nadolig

Cofiwch am y Ffair Nadolig a gynhelir yn Seilo rhwng 1 a 4 o'r gloch brynhawn dydd Iau, 14 Tachwedd. Bydd y theatr yn agored i dderbyn nwyddau rhwng 6 a 7 o'r gloch nos Fercher, 13 Tachwedd a rhwng 10 ac 11 o'r gloch ar fore'r ffair. Apelir am roddion ar gyfer y stondinau: cacennau a chynnyrch cartref, nwyddau bron yn newydd, bric-a-brac, planhigion a llysiau, llyfrau/tegannau plant ynghyd â nwyddau ar gyfer y tombola. Ni dderbynir llyfrau oedolion na dillad. Mae tocynnau mynediad ar werth am £1 gan y chwiorydd.

Ocsiwn Llwygrifau

Dymuna'r Gweinidog ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Ocsiwn. Ymhlith y llawysgrifau mae rhai gan: Myrddin ap Dafydd; Annes Glynn; Mererid Hopwood; Dafydd Iwan; Alun Jones; Dewi Jones; Gerallt Lloyd Owen; T.H.Parry-Williams; Angharad Price; Dewi Pws; Emlyn Richards; Eigr Lewis Roberts; Gwyn Thomas; Angharad

Tomos; Lewis Valentine; Aled Jones Williams a Rowan Williams. Mae llythyrau gan Cynan; David Lloyd George; Saunders Lewis; Bob Owen, Croesor a Kate Roberts. Ceir llyfr wedi'i lofnodi gan Harri Parri. Mewn Llyfr Llofnodion yn dyddio o ddechrau'r ganrif ddiwethaf, ceir cerdd Saesneg gan W.J.Gruffydd a chyfraniadau gan O.M.Edwards, J.Glyn Davies ac eraill. Hyn a mwy gan gynnwys rhai creiriau o ddiddordeb Cymreig. Am restr llawn o'r llawysgrifau a'r creiriau, neu os am gyfrannu mewn unrhyw fodd tuag at yr ocsiwn, cysyllter â'r Gweinidog.

Y Gymdeithas Lenyddol

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Gymdeithas yng nghwmni Cymdeithas y Chwirydd nos Lun Hydref 7 pryd y buom yn cydfwynhau Swper y Cynhaeaf yng nghwmni'r gŵr gwadd, Mr Gwyn Pierce, Llanbedr. Bu Mr Pierce, oedd yn un o grŵp Hogia'r Garreg, Llanfrothen, yn canu i'w gyfeiliant ei hun ar y gitar ac yn edrych yn ôl ar ganeuon y pumdegau a'r chwedegau, oedd bron i gyd yn gyfeithiadau neu addasiadau o ganeuon Saesneg neu Americanaidd. Bu pawb yn cydganu ac yn dwyn i gof ganeuon a ganwyd gan grwpiau megis Hogia Deulyn, Triawd y Colleg, Hogia Llandygai, Triban ac unigolion megis Bob Roberts, Tai'r Felin a Dafydd Iwan.

Cyflwynwyd a chrosawyd Gwyn Pierce gan ei hen gyfaill Richard Morris Jones. Hefyd diolchodd iddo am ei raglen hynod ddifyr ac addysgiadol. Ategwyd y diolch gan y gweinidog. Trefnwyd y wledd ardderchog gan Dorothy Williams a chriw o ferched y ddwy gymdeithas.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas Lenyddol nos Lun, Tachwedd 4, pryd y ceir sgwrs gan Gari Wyn ar 'Effaith unigolion rhwng 1775 ac 1825 ar ein bywyd ni heddiw.'

Theatr Seilo

Mae nifer o gyrff a sefydliadau lleol yn parhau i logi'r theatr ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau. Yn ystod yr haf eleni cyn-

haliodd Côr Meibion Caernarfon gyngerdd gyda chôr gwadd o'r Iseldireoedd; ddiwedd Medi cynhaliwyd cyngerdd blynyddol Seindorf Arian Deiniolen yn y theatr. Roedd y lle'n rhwydd lawn ar y ddau achlysur.

Bydd mis Tachwedd yn fis hynod o brysur :

Tachwedd 2 - Cyngerdd gan ddisgyblion hŷn Cerddorfa Rhanbarth Arfon Gwasanaeth Ysgolion Williams Mathias

Tachwedd 9 - Cyngerdd Kilimanjaro a drefnir trwy'r NSPCC. Prif artistiaid: Rhys Meirion a Lois Eifion

Tachwedd 20 - Perfformiad gan ddisgyblion Band Iau Rhanbarth Arfon, Gwasanaeth Ysgolion William Mathias

Tachwedd 22 - Cyngerdd gan Gôr Meibion Caernarfon a Meinir Roberts (unawdydd)

Tachwedd 28 - Arwerthiant Llawysgrifau

Tachwedd 30 - Cyngerdd a drefnir gan yr elusen Awyr Las.

Ac yna ym mis Rhagfyr bydd Ysgol y Gelli ac Ysgol Santes Helen yn cynnal eu cyngherddau Nadolig yn y theatr.

Yn ogystal, bydd cyfarfodydd cymdeithasau eglwys Seilo yn cynnal rhai o'u cyfarfodydd a gweithgareddau fel y Ffair Nadolig ar Dachwedd 14eg yma hefyd. Yn sicr, bydd rhywbeth at ddant pawb yn ystod y ddeufis nesaf.

Os oes gennych ddiddordeb mewn stiwardio yn y theatr, cysylltwch â Mr J Idwal Williams, os gwelwch yn dda. Rhif ffon: 01286 676069

Llongyfarchiadau

Yng nghylchgrawn mis Hydref 'Y Wawr', sef cylchgrawn cenedlaethol Merched y Wawr, gwelir stori feicro gan Margaret Wyn Roberts, neu Magi i'w chydabod o dan y teitl "Bag fy Mam a Llawysgrifen fy Nhad." Daeth y stori hon yn fuddugol yng Ngŵyl yr Haf, Merched y Wawr eleni. Ie, yn gydradd gyntaf trwy Gymru cofiwch! Llongyfarchiadau i ti Magi.

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf i law erbyn Tachwedd 20fed

Gweinidog: Parchg Gwenda Richards 676435
Golygydd: Mrs Angharad Rhys Williams 674865